



Theatr Genedlaethol Cymru

Pecyn Swydd : Cyfarwyddwr Cyswllt

Rydym yn chwilio am berson brwdfrydig, egnïol a phrofiadol i ymuno â thîm creadigol y Theatr. Dyma gyfle i wneud cyfraniad o bwys wrth inni greu profiadau theatr o'r radd flaenaf yn y Gymraeg. Byddwch yn cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Artistig i lunio rhaglen artistig anturus a dychmygus ac yn gyfrifol am ddatblygiad creadigol prosiectau ar gyfer rhaglen artistig i'r dyfodol.

Y Cwmni a'i Waith:

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn creu naratif cenedlaethol sy'n cynrychioli diwylliant deinamig Cymru, wrth greu theatr arloesol ac uchelgeisiol trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru a thu hwnt – ar brif lwyfannau, mewn lleoliadau annisgwyl, ac yng nghalon ein cymunedau.

Mae uchafbwyntiau diweddar y cwmni yn cynnwys **Macbeth**, cyfieithiad y diweddar Gwyn Thomas o glasur Shakespeare a gyflwynwyd fel cynhyrchiad safle benodol yng Nghastell Caerffili, yn ogystal â'i ddarlledu'n fyw i ganolfannau ar draws Cymru, am y tro cyntaf; **Nansi**, drama newydd yn dathlu bywyd y delynores hudolus Nansi Richards; addasiad Gareth Miles o nofel T Rowland Hughes **Chwalfa**, yn adrodd hanes streic Fawr Chwarel y Penrhyn ac yn cynnwys cast cymunedol o dros 50; **Dawns Ysbrydion** gydag Eddie Ladd oedd yn nodi 50 mlynedd ers agor argae Tryweryn.

Mae'r cwmni – a leolir yng Nghaerfyrddin – hefyd yn cynnig gweithdai a rhaglen gynhwysfawr o waith gyda grwpiau cymunedol, ac yn darparu adnoddau ar gyfer y sector theatr yng Nghymru.



Theatr Genedlaethol Cymru

Cyfarwyddwr Cyswllt

(Associate Director)

TEITL Y SWYDD:	CYFARWYDDWR CYSWLLT
YN ATEBOL I:	Cyfarwyddwr Artistig
PWRPAS Y SWYDD:	Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Artistig i lunio a datblygu rhaglen artistig y cwmni
CYFLOG:	£28,000 pro rata
HYD AC ORIAU'R SWYDD:	Rhan Amser (0.5) – 18.75 awr yr wythnos (ar gyfartaledd) Oriau hyblyg i'w cytuno. Cytundeb 2 flynedd yn unig. I gychwyn cyn gynted a bo modd
GWYLIAU:	12.5 diwrnod + gwyliau statudol.
LLEOLIAD:	Y Llwyfan, Caerfyrddin
COFNOD TROSEDDOL:	Mae'r swydd hon wedi ei heithrio o'r Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr (1974), ac mae hawl gan y cyflogwr i wneud ymholiadau trwy'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd neu'r awdurdod perthnasol sy'n goruchwyllo gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu bersonau agored i niwed.
DYDDIAU CAU:	Dydd Llun 20fed o Fawrth, 2017, 14:00

Dylid dychwelyd eich ffurflen gais i: thgc@theatr.com neu

Theatr Genedlaethol Cymru, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin. SA31 3EQ

Theatr Genedlaethol Cymru

Disgrifiad Swydd: Cyfarwyddwr Cyswllt

Prif Ddiben y Swydd:

Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Artistig i lunio rhaglen artistig anturus a dychmygus ac i fod yn gyfrifol am ddatblygiad creadigol prosiectau ar gyfer rhaglen artistig i'r dyfodol.

Yn adrodd i'r

Cyfarwyddwr Artistig

Gweithio i ThGC

Mae gan bob aelod o staff Theatr Genedlaethol Cymru rôl sylweddol i'w chwarae er mwyn cyflawni nodau'r Cwmni. Mae'r staff i gyd yn hyrwyddwyr ar gyfer gwaith ac ethos y cwmni ac anogir staff y Cwmni i fynd i weld gwaith, datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau, cyflwyno artistiaid newydd ac aelodau o'r gymuned i Theatr Genedlaethol Cymru ac i helpu i ddatblygu syniadau creadigol a chyfranogol ar gyfer y dyfodol. Mae presenoldeb yn ystod cyfarfodydd y Cwmni yn rhan werthfawr o swydd pawb. Y tu hwnt i dasgau penodol pob disgrifiad swydd, mae'r gweithgareddau hyn ledled y Cwmni yn rhan allweddol o gyfraniad a llwyddiant pob aelod o staff.

Tasgau Allweddol

- **Rhaglen Artistig:** Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Artistig i lunio rhaglen artistig anturus a dychmygus ac i fod yn gyfrifol am ddatblygiad creadigol prosiectau ar gyfer rhaglen artistig i'r dyfodol.
- **Gwaith Cyfranogi a Datblygu Cynulleidfa:** Cynorthwyo'r Cynhyrhydd Gweithredol i weithredu'r strategaeth gyfranogi drwy lunio a chynnal gweithdai a sesiynau creadigol fel rhan o raglen o waith cyfranogi'r cwmni.

Rhaglen Artistig

Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Artistig i lunio rhaglen artistig anturus a dychmygus ac i fod yn gyfrifol am ddatblygiad creadigol prosiectau ar gyfer rhaglen artistig i'r dyfodol.

- Cyflwyno syniadau creadigol ar gyfer rhaglenni artistig i'r dyfodol a bod yn gyfrifol am ddatblygiad creadigol y prosiectau hynny ac eraill
- Bod yn gyfrifol am ddatblygiad creadigol prosiectau artistig, a olyga gynnal cyfarfodydd creadigol rheolaidd gydag artistiaid sy'n datblygu prosiectau ar gyfer y cwmni, gweithredu fel dramawrg a chynnig cyngor ymarferol i'r artistiaid hynny gan greu a rheoli strategaeth ar gyfer datblygiad y prosiectau hynny
- Adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cynhyrhydd Gweithredol ar ddatblygiad creadigol prosiectau artistig a chynnig argymhellion ar gamau pellach o ran datblygu, cynhyrchu neu derfynu'r prosiectau hynny
- Darllen sgrïptiau a syniadau a ddaw at y cwmni heb eu cymell, a chynnig arweiniad i'r artistiaid a'u cyflwynu, ac i'r cwmni, o ran unrhyw gamau pellach
- Sefydlu a datblygu partneriaethau creadigol gydag artistiaid a sefydliadau artistig eraill, gyda golwg at ddatblygu rhaglen artistig i'r dyfodol
- Bod yn ymwybodol o artistiaid theatr newydd (e.e. awduron, actorion, cyfarwyddwyr, cynllunwyr) a datblygu a rheoli prosiectau mentora a datblygu sgiliau priodol

- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau a thueddiadau artistig cyfredol ym maes theatr yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol
- Paratoi adroddiadau ar waith datblygu artistig y cwmni ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Gwaith Cyfranogi a Datblygu Cynulleidfa

Cynorthwyo'r Cynhyrchydd Gweithredol i weithredu'r strategaeth gyfranogi drwy lunio a chynnal gweithdai a sesiynau creadigol fel rhan o raglen o waith cyfranogi'r cwmni.

- Cynorthwyo'r Cynhyrchydd Gweithredol, y Cynhyrchydd Cyswllt a'r Swyddog Cyfranogi a Marchnata trwy gynnig syniadau creadigol ar gyfer datblygu gwaith cyfranogi'r cwmni
- Cynllunio a chynnal gweithdai creadigol gyda grwpiau cymunedol (e.e. myfyrwyr ysgol a choleg, cymdeithasau drama a llenyddol, dysgwyr) mewn perthynas â gwaith cyfranogi'r cwmni

Arall

- Mewn cydweithrediad a swyddogion eraill, gweithredu systemau gweinyddol a threfniadol gwaith datblygu artistig y cwmni.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill rhesymol ar gais y Cyfarwyddwr Artistig.

Manyleb Person

	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau a Hyfforddiant		
Cymhwyster proffesiynol (gradd/diploma) ym maes theatr/drama/llynyddiaeth/dramawriaeth		✓
Profiad		
Profiad helaeth o gyfarwyddo ar gyfer y theatr	✓	
Profiad helaeth o gydweithio gydag awduron ac artistiaid theatr ar ddatblygu gwaith creadigol ar gyfer y theatr	✓	
Profiad o ddatblygu sgiliau creadigol ym maes theatr	✓	
Profiad o gynnal gweithdai neu ddosbarthiadau theatr gyda myfyrwyr ac/neu grwpiau cymunedol		✓
Profiad o reoli datblygiad prosiectau creadigol		✓
Gwybodaeth		
Gwybodaeth helaeth am artistiaid theatr (e.e. awduron, actorion, cyfarwyddwyr, cynllunwyr) yng Nghymru a thu hwnt.	✓	
Gwybodaeth helaeth am dueddiadau artistig cyfredol ym maes theatr yng Nghymru, y DU a thu hwnt.	✓	
Gwybodaeth am sefydliadau a gwyliau celfyddydol a theatr ryngwladol		✓
Sgiliau		
Y gallu i gyfathrebu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg i safon uchel	✓	
Y gallu i weithio fel aelod o dîm	✓	
Y gallu i ddangos menter ac i weithio'n annibynnol	✓	
Y gallu i fentora, ysbrydoli, annog a datblygu sgiliau creadigol eraill	✓	
Y gallu i drefnu a rheoli portffolio o weithgareddau datblygu creadigol	✓	
Sgiliau gweinyddol a threfniadol da	✓	
Sgiliau cyfrifiadurol a gwybodaeth technoleg da	✓	
Trwydded yrru gyfredol		✓